**CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL**

---

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm, Dydd Mawrth 17 Medi 2024**

**Yn bresennol:** Cyng. Celfyn Furlong – Cadeirydd
**Cynghorwyr:** Gwilym O. Jones, Gordon Owen, William Victor Owen, Evan Wyn Robertson ac Einir Thomas,

**Hefyd yn bresennol:** Mai Owen – Clerc / Swyddog Ariannol Cyfrifol a Ken Taylor Cyng. Sir.

**1. Ymddiheuriadau:** Cyng. Siân Enfys Jones, Sharon Parry, Gareth Thomas a Dyfed Williams.

**2. Datganiad o Fuddiant** –
Cyng. Gwilym O. Jones a Gordon Owen yn datgan diddordeb personol yn eitem 4.3 Neuadd y Pentref, Caergeiliog a Cyng. Ken Taylor yn datgan diddoordeb yn y materion cynllunio.

**3. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol**
Derbyniwyd cofnodion 16 Gorffennaf 2024 a 20 Awst 2024 fel rhai cywir (Cynnig Cyng. E. W. Thomas, eiliio Cyng. G. O. Jones.)

**4. Materion yn codi o'r cofnodion:**

4.1 Cae chwarae: gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau am y sied a threfnu i'r goeden wrth ei hochr gael ei gwneud yn ddiogel.

4.2 Diffibriliwr – byddai'r clerc yn gofyn i CSYM am syniad pryd bydd y postyn yn cael ei osod cyn prynu deffibriliwr arall tebyg i'r un a brynwyd yn flaenorol.
.

4.3 Neuadd y Pentref:
Roedd y Cyngor yn dal i ddisgwyl am y brydles gan y cyfreithiwr - roedd y naill ochr eisoes wedi cytuno ar y draft.
Dywedwyd fod y Cyngor Cymuned / Ymddiriedolwyr y Neuadd wedi sicrhau grant o £10,000 tuag at greu ramp ar gyfer cerbydydau anabl, trwsio'r to ac ail osod tair ffenestr ar gefn yr adeilad (amcan bris £12,654). Bu rhaid gwneud y cais o fewn cyfnod byr gyda dim ond un pris ac roedd angen dechrau cyn gynted â phosibl gan fod rhaid gorffen y gwaith cyn 30 Tachwedd 2024. O ystyried hyn a'r prinder contractwyr oedd ar gael ar fyr rybudd cytunwyd i ildio ar yr angen am dri amcanbris y tro hwn ond byddai'r clerc yn gofyn am ddyfyniadau pellach lle bo modd. Byddai'r Cadeirydd a'r Clerc yn gweithio gyda'r Ymddiriedolwyr ac yn trefnu i gymaint â phosibl o'r gwaith gael ei wneud o fewn yr amserlen. Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn talu am y gwariant dros £10,000 ond byddai rhaid cael caniatâd pellach am unrhyw wariant dros y gost wreiddiol o £12,654.

Roedd y clerc wedi cysylltu gyda Dŵr Cymru ynglŷn â chyflenwad dwr newydd a

Arwyddwyd Cadeirydd

chafwyd tystysgrif nwy arall gan y peirianydd. Cytunwyd i dalu £350 a TAW Môn Fire Service am eu hadroddiad. Byddai'r clerc yn trefnu i gael gwneud asesiadau risg hefyd.

Nodwyd fod yswiriant y neuadd i'w adnewyddu yn fuan - cytunwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn ychwanegu'r adeilad at ei yswiriant ei hun cafwyd amcan bris o £737.10 ar bolisi 2024/25. Roedd hyn yn rhatach o lawer na'r £2031.53 a ddyfynnwyd i'r Ymddiriedolwyr.

4.4 Llwybrau troed: Roedd y llwybrau ar y rhestr wreiddiol wedi'u torri, a gofynnwyd i'r contractwr edrych ar y llwybr sy'n arwain o ZealandPark tuag at Ddinam Bach.

4.5 Unrhyw fater arall sy'n codi o'r cofnodion:
Roedd problemau yn parhau yn y gilfan wrth Bwthyn Ceirios gan fod y nifer ceir oedd yn cael eu gadael yna yn achosi rhwystr. Byddai Gwilym Jones yn delio â hyn.

**5. Goleuadau Lôn Minffordd –** cytunwyd i ddechrau drwy brynu un lamp.

**6. Ceisiadau cynllunio -** dim.

**7. Penderfyniadau Cynllunio:-**

7.1 HHP/2024/102 Bwthyn Ceirios, Caergeiliog - caniatâd.
7.2 FPL/2024/119 Bryn Ednyfed, Caergeiliog - caniatâd.
7.3 FPL/2024/118 Tŷ Cymyran, Caergeiliog - caniatâd.

**8. Materion Ariannol**
Cyflwynodd yr SAC yr adroddiad ariannol am y cyfnod o 1.7.2024 i 31.8.2024 ynghyd â chymodi banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.
Cyfrif cyfredol £37,195.37 Cyfrif Cadw £4043.06

**9.** Taliadau: wedi'u nodi / cytunwyd ar gyfer mis Awst a mis Medi.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog (Gorffennaf ac Awst) | £847.68 | S. Wharton – torri glaswellt | £360 |
| S. Wharton - torri llwybrau | £396 | Môn Fire Service | £420 |
| Clerc (par. Dwr Cymru) | £151.30 | | |

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SAC yn talu unrhyw anfonebau a dderbyniwyd mewn perthynas â gwariant a gytunwyd yn flaenorol.

**10. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.**

10.1 Cais Enwi Stryd - Datblygiad Newydd Llanfihangel yn Nhowyn. Dewiswyd Ger y Llynnoedd fel enw, byddai'r clerc yn ymateb yn unol â hynny.

10.2 Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned 10.9.2024 – Cyng. G.O. Jones am

Arwyddwyd Cadeirydd

fynychu hwn.

10.3 Hyfforddiant – Atgoffwyd yr Aelodau fod hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ar gael am ddim drwy CSYM.

**11. Adroddiadau Aelodau**

Cyng. Celfyn Furlong:
Dywedodd fod  problem gyda'r lloches bws metel ar Ffordd Cymyran, cytunwyd i dalu'r gost amcangyfrifedig o £100 am y gwaith atgyweirio.
Roedd wedi mynychu noson wybodaeth a drefnwyd gan Lagan Aviation yn Eglwys Sant Mihangel, Llanfihangel yn Nhowyn ar 4 Medi 2024 lle cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith ailwynebu ar y rhedfeydd. Ychydig bobl oedd yno gan na roddwyd mawr o rybudd ar ei gyfer ond nodwyd fod pryder am gyflymder y lorïau ar Ffordd Cymyran ac effaith hynny ar drigolion lleol. Roedd o hefyd wedi trefnu i gyfarfod gyda swyddog o Lagan Aviation parthed buddiant cymunedol.

**12. Cyfarfod nesaf - 15 Hydref 2024**

:

Arwyddwyd Cadeirydd